Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** | |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** | |
| **Dyddiad:** | **4 Chwefror 2016** | |
| **Amser:** | **10:00 – 11:35** | |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Christopher Salmon, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Simon Prince QPM (PG)<br>Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Mr Tim Burton, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu (DGHTh)<br>Dr Helen Morgan-Howard, Pennaeth Staff, SCHTh (HM-H)<br>Uwch-arolygydd Claire Parmenter (CP)<br>Mrs Alison Perry, Cyfarwyddwr Comisiynu (ALP)<br>Mrs Claire Bryant, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (CB)<br>Arol. Mark McSweeney, Swyddog Staff (MMS) |
| **Ymddiheuriadau:** | Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol (PSA) |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 13/01/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb** | **Cynnydd** |
| **PB 549** | **PG i ateb cwestiynau a godwyd gan y Comisiynydd Plant mewn perthynas ag achosion secstio, a DGHTh i ymateb i'r Comisiynydd Plant** | **Cwblhawyd** |
| **PB 550** | **Darparu ymateb i ymgynghoriad trawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl Hywel Dda i'r CHTh** | **Cwblhawyd** |

| DECISIONS ARISING FROM MEETING 04/02/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Penderfyniad** | **Crynodeb** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 091** | **Symud ymlaen â'r cynigion ar gyfer gwaith troseddau ieuenctid** | **ALP** |
| **PB 092** | **Parhau â chytundeb Airwave Pronto am dymor o 4 blynedd ar ôl cadarnhau adborth cadarnhaol gan Gwmni TGCh yr Heddlu** | **CA** |
| **PB 093** | **Gwobrwyo'r cytundeb Gwasanaethau Meddygol Fforensig i Castlerock Recruitment Group am flwyddyn, er mwyn caniatáu ymchwilio i'r cyfle am bartneriaeth â'r Bwrdd Iechyd lleol** | **CA** |
| **PB 094** | **Gwobrwyo cytundeb gwasanaethau teithio i CTM Cyfyngedig** | **CA** |

Agorodd y CHTh y cyfarfod gan gytuno i newid trefn y cyfarfod er mwyn galluogi swyddogion sy'n bresennol i ddychwelyd i'w dyletswyddau.

Ceisiodd y CHTh eglurhad ar gywirdeb y cofnodion. Cadarnhaodd y PG bod y ffigwr ar gyfer cydymffurfio â'r system CATS yn gywir, a bod hyn yn ymwneud â materion o ran recordio. Nodwyd un camgymeriad gramadegol.

**Cynigion o ran Troseddau Ieuenctid**

Rhoddodd ALP gefndir i'r rhesymwaith dros y cynigion, gan nodi fod camau gweithredu wedi'u nodi'n flaenorol mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona. Darparodd CP drosolwg o'r adolygiad o'r gwaith ataliol pobl ifainc yr oedd wedi'i gynnal, gan dynnu sylw at y pwyntiau amlwg a godwyd o fewn yr adroddiad. Gofynnodd y CHTh sut oedd y gwelliant o 25% mewn ymddygiad ac agwedd yn dilyn presenoldeb ar y prosiect Ysgogi Ein Hieuenctid yn cael ei fesur. Eglurodd CP bod y plant yn cael eu holi'r un cwestiynau ar ddechrau ac ar ddiwedd y cwrs.

Nododd CP nifer o argymhellion ar gyfer datblygu'r Rhaglen Cyswllt Ysgolion, gan gynnwys gwell aliniad rhwng Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion (SHCY) a Thimoedd Plismona Bro (TPB), mwy o gysylltiad gan sefydliadau trydydd sector, a'r cydlynydd yn mynychu grwpiau tasgio rhanbarthol. Holodd y CHTh am rôl y cydlynydd. Dywedodd CP mai rôl y cydlynydd oedd sicrhau ansawdd y rhaglen a sicrhau cysondeb o ran cyflwyno'r rhaglen. Cadwyd trafodaeth mewn perthynas â chael cydlynwyr ar lefel leol a chenedlaethol. Esboniodd CP fod y strwythur yn caniatáu moderneiddio'r cwricwlwm yn amserol, sy'n galluogi'r rhaglen i ymateb i dueddiadau o ran trosedd ac ymddygiad. Holodd y CHTh os fyddai'r ysgolion yn medru sicrhau ansawdd y gwersi eu hunain. Awgrymodd CP y gall fod cwestiwn o ran gallu, a bod yn rhaid i athro fod yn bresennol i gefnogi'r SHCY. Drwy gyflogi cydlynydd canolog, sicrheir cysondeb ledled HDP. Nododd y PG mai bwriad y cynllun oedd bodloni blaenoriaethau HDP yn ogystal â'r ysgol, ac roedd yn siŵr fod y strwythur yn cynnal y cysondeb hwn.

Dywedodd CP fod angen gwella marchnata mewnol i godi ymwybyddiaeth o'r rôl SHCY, a theimlwyd y byddai aliniad â'r timoedd plismona bro'n cefnogi hyn. Roedd y CHTh yn gefnogol iawn o'r aliniad TPB. Dywedodd CP y byddai trydydd sector ond yn gysylltiedig â darparu mewnbwn os oedd unigolion achrededig wedi'u hyfforddi'n briodol yn medru cyflenwi i'r bobl ifainc.

Cytunodd y CHTh y dylai HDP fwrw ymlaen â'r cyflenwi lleol arfaethedig wrth aros am adborth gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag ariannu'r Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yn y dyfodol. Anogodd CP i ystyried y cyfle i dimoedd plismona bro gyflawni sicrwydd ansawdd a chyswllt a phrif athrawon ysgolion i gryfhau perthnasau lleol. Dywedodd y CHTh ei fod yn ffyddiog bod gan brif athrawon reolaeth dros yr hyn a oedd yn cael ei gyflwyno yn eu hysgolion, ac yn dymuno mwy o gysylltiad uniongyrchol ag ysgolion unigol.

Dywedodd y PG fod angen gofal i sicrhau nad oedd y SHCY yn cael ei dynnu i mewn i waith TPB arall ac i ffwrdd o'u hymrwymiadau ysgol, a bod angen monitro hyn yn ofalus.

Dywedodd y DGHTh ei god yn ymwybodol y byddai'r ysgolion fwy na thebyg yn fodlon â'r cynnwys ychwanegol a dderbynnir gan SHCY, ond roedd wedi cael ar ddeall bod rhai ysgolion yn cael trafferth cysylltu â'u SHCY pan fod ganddynt fater plismona i'w drin. Hefyd, cododd DGHTh nifer o ymholiadau mewn perthynas ag affeithiolrwydd y rhaglen Ysgogi Ein Hieuenctid. Dywedodd CP bod y gwerthusiad ar ôl mynychu'r rhaglen yn ateb y cwestiynau hyn. Dywedodd y PG nad oedd hi'n realistig i ysgol gael mynediad at SHCY yn syth oherwydd nifer yr ysgolion maen nhw'n ymdrin â nhw, ond cytunodd y CHTh y byddai aliniad â'r TPB yn gwella'r mynediad hwn.

Dywedodd y CHTh ei fod ond yn barod i barhau i ariannu'r prosiect Ysgogi Ein Hieuenctid pe bai'n cael ei ail-gyfeirio i ganolbwyntio ar y bobl ifainc sy'n cymryd rhan ac yn cael ei arwain gan bartneriaid allanol gyda chymorth yr Heddlu. Dywedodd ALP bod cynigion sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer ystyriaeth o bosibl yn darparu cyfle i gynnwys y rhaglen Ysgogi Ein Hieuenctid. Roedd adborth wedi'i dderbyn gan bartneriaid mewn perthynas â pha mor gyflym y mae materion a godir yn cael eu cynnwys yn y gwersi a gyflwynir. Ystyriodd ALP y byddai'r cydlynydd sy'n mynychu cyfarfodydd tasgio'n cynnal hyn a dylai'r daliwr swydd allu ymgysylltu â phartneriaid allweddol i sicrhau cysondeb negeseuon.

Cyflwynodd ALP y papur cynnig ieuenctid, gan esbonio y byddai panel ymgysylltu amlasiantaeth yn ystyried pob cyfeiriad yn erbyn fframwaith i asesu pwy fyddai'n cael ei roi ymlaen ar gyfer ymyrraeth. Eglurodd fod y trydydd sector yn darparu pecynnau cymorth ymyrraeth ar hyn o bryd, ond nodwyd fod bylchau mewn meysydd megis rheoli dicter a chymorth teulu. Y cynnig oedd treialu'r rhaglen ym mhob awdurdod lleol am flwyddyn, a chytunodd y CHTh ar hyn.

Anogodd y PG ofal rhag beirniadu'r rhai sy'n ceisio gwneud gwaith da o fewn y rhaglenni cyfredol. Dywedodd y CHTh ei fod e'n credu bod y bwriad yn gywir, ond roedd angen blaenoriaethau canolbwyntio ar y bobl ifainc. Hefyd, anogodd fod angen defnyddio arbenigedd o du allan i gynnal cyflenwi.

**Penderfyniad: Symud ymlaen â'r cynigion ar gyfer gwaith troseddau ieuenctid**

**Cam Gweithredu: ALP a CP i ystyried sut mae'r rhaglen Ysgogi Ein Hieuenctid yn cael ei chynnwys yn y cynigion troseddau ieuenctid newydd**

**Cam Gweithredu: CP i ddod a'r gwaith SHCY i ben ac adolygu trefniadau sicrhau ansawdd**

**Diweddariad y Prif Gwnstabl**

Darparodd y PG drosolwg byr o ddigwyddiadau allweddol, gan gynnwys arestio unigolyn yn dilyn lladrad honedig o siop yn Aberteifi. Cysylltwyd yr unigolyn â digwyddiadau eraill hefyd, ac roedd e'n berson o ddiddordeb mewn ardaloedd eraill. Daethpwyd o hyd i unigolyn agored i niwed ac fe'i hachubwyd yn ddiogel o lyn drwy ymateb ar y cyd gan yr Heddlu a Gwylwyr y Glannau. Bu problem o ran ymateb yr hofrennydd y tro hwn. Cytunwyd y byddai ystadegau o ran y defnydd o'r Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol yn cael eu hystyried yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i rannu ystadegau o ran y defnydd o'r Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona**

**Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Tynnodd CHTh sylw at broblem o gyfarfod diweddar y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol mewn perthynas â'r adolygiad gwasanaeth ar y cyd. Gofynnodd CHTh i'r PG am gymorth i symud yr adolygiad yn ei flaen. Roedd y CHTh wedi mynychu cyfarfod diwygio cyfiawnder troseddol ac ystyriodd fod newid ar ddod.

***Cynlluniau Peilot Tagio Systemau Lleoli Byd-eang***

Trafododd y CHTh ac ALP y cais gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i Heddluoedd sydd â diddordeb mewn treialu technoleg Tagio Systemau Lleoli Byd-eang. Dywedodd y PG y gallai HDP gymryd rhan, ond roedd angen mwy o wybodaeth ac ystyriodd nad oedd gan HDP y niferoedd sydd angen i gynnal peilot sylweddol o bosibl. Cytunwyd y gall partneriaeth â heddlu cyfagos fod yn bosibl er mwyn symud y treial ymlaen. Cytunodd ALP i drafod y posibilrwydd â Heddlu De Cymru ac ymateb i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i fynegi diddordeb.

**Cam Gweithredu: ALP i gysylltu â De Cymru i ganfod eu bwriadau mewn perthynas â'r peilot technoleg Tagio Systemau Lleoli Byd-eang, ac ymateb i GCHTh i fynegi diddordeb HDP yn y cynllun, erbyn 18 Chwefror**

**Diweddariad y Cyfarwyddwr Adnoddau**

***Cymorth a chyflenwi proses Airwave Pronto***

Cyflwynodd y CA yr adroddiad, gan esbonio bod yr Heddlu bron hanner ffordd trwy gytundeb pedair blynedd, a bod angen penderfynu pa un ai a ddylid parhau â'r cytundeb a'r taliad cysylltiedig o £175,000 ar gyfer dwy flynedd gyntaf y cyfraniad a £180,000 ar gyfer prynu trwydded safle. Ystyriodd y CA mai'r drwydded safle oedd y dewis mwyaf cost effeithiol o ystyried y fantais a'r prosesau ychwanegol sydd ar gael. Cafwyd

trafodaeth mewn perthynas â chanllawiau gan Gwmni TGCH yr Heddlu. Cytunwyd y byddai DGHTh yn trafod y cytundeb arfaethedig â Chwmni TGCh yr Heddlu i sicrhau fod y cytundeb yn cynnig y gwerth gorau am arian.

**Penderfyniad: Parhau â chytundeb Airwave Pronto am dymor o 4 blynedd ar ôl cadarnhau adborth cadarnhaol gan Gwmni TGCh yr Heddlu**

***Sefyllfa Drwyddedu Microsoft***

Cyflwynodd y CA yr adroddiad, gan nodi fod y trefniant presennol yn dod i ben ddiwedd Mawrth. Argymhellwyd ymrwymo i danysgrifiad cytundeb menter, am gost o £772,000 dros ddwy flynedd. Byddai'r cytundeb hefyd yn galluogi hyblygrwydd i ddod â'r cytundeb i ben ar unrhyw adeg er mwyn caniatáu ar gyfer unrhyw ddatblygiadau gan Gwmni TGCh yr Heddlu. Dywedodd y CA bod pecynnau eraill wedi'u hystyried, fodd bynnag, ystyriwyd mai hyn oedd fwyaf priodol. Holodd y CHTh os ellir cyflawni arbedion maint drwy gydweithio â Heddluoedd eraill. Cytunwyd y byddai DGHTh hefyd yn trafod sefyllfa Cwmni TGCh yr Heddlu ar y mater hwn cyn bwrw ymlaen â'r cytundeb.

**Cam Gweithredu: Ailystyried cynnig trwyddedau Microsoft mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona yn dilyn adborth DGHTh o'r drafodaeth â Chwmni TGCh yr Heddlu**

***Caffael Gwasanaethau Meddygol Fforensig***

Cyflwynodd y CA yr adroddiad, a oedd yn cynnig cytundeb blwyddyn gyda'r opsiwn i estyn am flwyddyn ychwanegol. Cadarnhawyd bod y cytundeb arfaethedig yn darparu amnewidiad tebyg am ei debyg o'r cytundeb cyfredol. Gan hynny, nid oedd modd darparu gwasanaethau pediatrig ar hyn o bryd. Gofynnodd y CHTh pa un ai a oedd cynnydd wedi'i wneud gyda darparwyr posibl eraill. Dywedodd y PG bod trafodaethau'n digwydd â Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Eglurodd HM-H bod y cytundeb eisoes wedi'i arwyddo, ond gall fod cyfle i gydweithio â De Cymru pe bai oedi o ran pennu dewisiadau cydweithio lleol. Nodwyd fod rhai ffaeleddau o ran cydweithio â De Cymru, a dyna pam na fu cytundeb hyd yn hyn. Cytunodd CHTh ar gytundeb blwyddyn, gan ddwedyd y byddai trafodaethau â darparwyr posibl eraill yn cael eu symud ymlaen yn ystod y flwyddyn. Cytunodd y PG y byddai angen dod o hyd i ddatrysiad hirdymor amgen os na ellir dod i gytundeb â'r bwrdd iechyd yn ystod y flwyddyn. Gofynnodd y CHTh am ddiweddariad mewn cyfarfod ym mis Mehefin.

**Penderfyniad: Gwobrwyo'r cytundeb Gwasanaethau Meddygol Fforensig i Castlerock Recruitment Group am flwyddyn, er mwyn caniatáu ymchwilio i'r cyfle am bartneriaeth â'r Bwrdd Iechyd lleol**

**Cam Gweithredu: Adolygu cynnydd o ran trafodaethau â byrddau iechyd lleol mewn perthynas â Gwasanaethau Meddygol Fforensig ym mis Mehefin**

***Swydd Cyfarwyddwr Cynorthwyol - cydweithio ac effeithlonrwydd***

Cyflwynodd y CA y disgrifiad swydd a'r fanyleb person, gan esbonio'r rhesymwaith dros y swydd yn gryno. Roedd cyfle wedi codi o swydd wag a rôl sy'n cael ei chyflawni gan unigolyn ar secondiad ar hyn o bryd. Cafwyd trafodaeth, gan arwain at y CHTh yn gofyn am gynnwys cydweithio a'r sector masnachol yn y disgrifiad swydd, ac egluro'r strwythur adrodd cyn hysbysebu'r swydd wag.

**Cam Gweithredu: Cynnwys cydweithio â'r sector masnachol yn y proffil rôl Cyfarwyddwr Cynorthwyol**

**Cam Gweithredu: Egluro'r strwythur adrodd ar gyfer Cyfarwyddwr Cynorthwyol cyn hysbysebu'r swydd wag**

***Archwiliad Mewnol Ystadau***

Rhoddodd y CA ddiweddariad byr mewn perthynas â'r archwiliad mewnol ystadau a oedd wedi'i ohirio, mewn ymateb i gam gweithredu sy'n weddill. Cadarnhaodd y CA fod dulliau cadw cydbwysedd wedi'u rhoi ar waith mewn ymateb i broblem a nodwyd mewn perthynas â biliau'n cael eu cyhoeddi i ddalwyr prydles.

**Cymeradwyo cytundeb gwasanaethau teithio**

Ystyriodd y CHTh y papur ar gyfer cymeradwyaeth, a holodd faint sy'n cael ei wario oddi ar gontract a pham. Dywedodd y CA bod hyn yn caniatáu ar gyfer amgylchiadau penodol, yn unol â'r polisi. Cymeradwyodd a chynigiodd y CHTh y cytundeb. Ceisiodd y CHTh gadarnhad nad oedd adnewyddu llety'r Pencadlys yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Cadarnhawyd bod papur yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona wythnos nesaf mewn perthynas â'r mater.

**Cam Gweithredu: Cyflwyno crynodeb o wasanaethau teithio oddi ar gontract yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona**

**Penderfyniad: Gwobrwyo cytundeb gwasanaethau teithio i CTM Cyfyngedig**

**Unrhyw Fusnes Arall**

***Adnoddau a datblygu'r Heddlu Gwirfoddol yn y dyfodol***

Cododd y CHTh gais gan yr Heddlu Gwirfoddol am ddyfeisiau llaw. Dywedodd y PG y byddai hyn yn bosibl pe bai trwydded safle'n cael ei brynu fel y trafodwyd yn gynharach. Ystyriodd y PG mai mater ydyw o sut yn hytrach na phryd. Cytunwyd y byddai'r PG yn cyfathrebu â'r Heddlu Gwirfoddol er mwyn darparu diweddariad.

**Camau Gweithredu: Y PG y gyfathrebu bwriad i gyflwyno dyfeisiau llaw o fewn yr Heddlu Gwirfoddol**

Cododd ALP ddau bryder mewn perthynas â ThG. Roedd yr adran TG wedi sicrhau y byddai'r gwaith i alinio'r system rheoli achosion Gwalia ac ASBIS yn cael ei wneud, ond nid oes cynnydd wedi'i wneud hyd yn hyn. Roedd y broblem yn oedi gwaith cytundeb ymddygiad gwrthgymdeithasol ac roedd angen sylw brys. Cytunwyd dilyn y mater ar fyrder.

**Cam Gweithredu: MMS i ddarparu dyddiad cwblhau ar gyfer y gwaith TG mewn perthynas â System Rheoli Achosion Gwalia erbyn diwedd y dydd**

Nodwyd yn flaenorol bod Canolfan Gyfeirio Ymosodiadau Rhyw y Drenewydd wedi adrodd peth amser yn ôl nad oedd cysylltiad ffôn na wi-fi wedi'i osod gyda nhw, ac roedd hynny'n destun pryder. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei ddilyn ar fyrder.

**Cam Gweithredu: Datrys materion TG yng Nghanolfan Gyfeirio Ymosodiadau Rhyw y Drenewydd mor fuan â phosibl**

Cododd HM-H ymholiad gan y PSA mai'r gwariant amcangyfrifol gwreiddiol ar gyfer darparu oedolion priodol yn y ddalfa oedd £14,000, ond roedd gwariant misol yn darparu rhagamcaniadau o wariant terfynol o £114,000. Roedd y PSA wedi dweud nad oedd hi eisiau rhoi'r neges y dylai'r ddarpariaeth ddod i ben, ond roedd hi'n ceisio eglurhad ynghylch sut cyrhaeddwyd yr amcangyfrif gwreiddiol, sut oedd yr amcangyfrif cyfredol mor uchel, sut oedd gwariant cyfredol yn cael ei fonitro, a sut oedd y gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio. Dywedodd y CHTh ei fod wedi'i nodi yn y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol ei fod yn cael ei or-ddefnyddio'n ddifrifol. Cytunwyd y byddai'r data mewn perthynas ag oedolion priodol yn cael ei ystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**Cam Gweithredu: Adolygu'r cynllun Oedolion Priodol, gan gynnwys sut a pham mae'n cael ei ddefnyddio a'r gost erbyn diwedd Chwefror**

Dywedodd MMS fod dau gwnstabl heddlu wedi'u dewis ar gyfer tîm rygbi Heddlu Prydain Gawr. Llongyfarchodd aelodau Kevin Allen ac Alun Davies ar eu llwyddiant.

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 04/02/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 551** | **ALP a CP i ystyried sut mae'r rhaglen Ysgogi Ein Hieuenctid yn cael ei chynnwys yn y cynigion troseddau ieuenctid newydd** | **ALP / CP** |
| **PB 552** | **CP i ddod a'r gwaith SHCY i ben ac adolygu trefniadau sicrhau ansawdd** | **CP** |
| **PB 553** | **Yr Heddlu i rannu ystadegau o ran y defnydd o'r Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona** | **MMS** |
| **PB 554** | **ALP i gysylltu â De Cymru i ganfod eu bwriadau mewn perthynas â'r peilot technoleg Tagio Systemau Lleoli Byd-eang, ac ymateb i GCHTh i fynegi diddordeb HDP yn y cynllun, erbyn 18 Chwefror** | **ALP** |
| **PB 555** | **DGHTh i drafod cynigion trwyddedau Microsoft ac Airwave gyda Chwmni TGCh yr Heddlu** | **DGHTh** |
| **PB 556** | **Ailystyried cynnig trwyddedau Microsoft mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona yn dilyn adborth DGHTh o'r drafodaeth â Chwmni TGCh yr Heddlu** | **CA** |
| **PB 557** | **Adolygu cynnydd o ran trafodaethau â byrddau iechyd lleol mewn perthynas â Gwasanaethau Meddygol Fforensig ym mis Mehefin** | **CA** |
| **PB 558** | **Cynnwys cydweithio â'r sector masnachol yn y proffil rôl Cyfarwyddwr Cynorthwyol** | **PG** |
| **PB 559** | **Egluro'r strwythur adrodd ar gyfer Cyfarwyddwr Cynorthwyol cyn hysbysebu'r swydd wag** | **PG** |
| **PB 560** | **Cyflwyno crynodeb o wasanaethau teithio oddi ar gontract yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona** | **CA** |
| **PB 561** | **Y PG y gyfathrebu bwriad i gyflwyno dyfeisiau llaw o fewn yr Heddlu Gwirfoddol** | **PG** |
| **PB 562** | **MMS i ddarparu dyddiad cwblhau ar gyfer y gwaith TG mewn perthynas â System Rheoli Achosion Gwalia erbyn diwedd y dydd** | **MMS** |
| **PB 563** | **Datrys materion TG yng Nghanolfan Gyfeirio Ymosodiadau Rhyw y Drenewydd mor fuan â phosibl** | **MMS** |
| **PB 564** | **Adolygu'r cynllun Oedolion Priodol, gan gynnwys sut a pham mae'n cael ei ddefnyddio a'r gost erbyn diwedd Chwefror** | **MMS** |